
Tân ar Safle Trawsyrrydd Bilsdale

Adolygiad o'r Digwyddiad

DATGANIAD

Dyddiad Cyhoeddi: 13 Mehefin 2022

1. Trosolwg

- 1.1 Roedd trawsryydd Bilsdale yn adeiledd 314 metr ei uchder a ddarparodd signalau radio a theledu i aelwydydd ar draws Teesside a llawer o Ogledd Swydd Efrog. Ar 10 Awst 2021, bu tân a ddifrododd y trawsryydd yn ddifrifol gan fynd â'r holl wasanaethau oddi ar yr awyr am gyfnod hir. Am fod y difrod i'r mast mor ddifrifol, bu'n rhaid ei ddymchwel wedyn.
- 1.2 Mae gan Arqiva, perchennog y trawsryydd, a'r sefydliadau sydd wedi'u trwyddedu i ddarparu gwasanaethau radio a theledu darlledu (y darlledwyr a thrwyddedeion amblecs digidol) gynlluniau ar waith i ddelio ag argyfyngau. Rhoddwyd y rhain ar waith yn gyflym ac yn gyffredinol gwnaethant weithio'n unol â disgwyliadau y trwyddedeion amblecs.
- 1.3 Yn sgil y digwyddiad, aeth Arqiva ati'n gyflym i adeiladu trawsryddion dros dro i adfer gwasanaethau i'r aelwydydd yr effeithiwyd arnynt, gan y byddai ailadeiladu'r mast tal yn cymryd cryn amser o ganlyniad i faint y dasg beirianneg.
- 1.4 Daethpwyd ar draws rhai materion a achosodd oedi wrth adeiladu'r trawsryydd dros dro ar safle Bilsdale, ac adroddodd rhai o'r trwyddedeion amblecs y bu adegau pan na chyflëwyd gwybodaeth yn effeithiol iddynt gan Arqiva.
- 1.5 Erbyn dechrau 2022, rhagwelwyd y byddai'r rhwydwaith o drawsryddion a adeiladwyd gan Arqiva fel dirprwy dros dro ar gyfer prif drawsryydd Bilsdale yn darparu darpariaeth ddigonol i tua 99% o aelwydydd a fu'n dibynnu gynt ar brif fast Bilsdale am eu gwasanaethau teledu.
- 1.6 Mae Arqiva a'r trwyddedeion a darlledwyr amblecs teledu a radio wedi gweithio ar y cyd i helpu gwylwyr a gwrandawyr. Darparwyd gwybodaeth a chefnogaeth i aelwydydd (gan gynnwys cymorth yn y cartref gan dechnegwyr) i helpu adfer derbyniad, er y bu i ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau achosi oedi wrth sefydlu'r cynllun cefnogaeth a ddarparwyd maes o law gan Arqiva. Mae Arqiva yn amcangyfrif y bydd wedi gwario mwy na £40m gan gynnwys ar gymorth i wylwyr, gwasanaethau newydd ac ailadeiladu'r prif fast wedi hynny.
- 1.7 O ystyried graddfa effaith yr argyfwng hwn ar wylwyr, mae Ofcom wedi bod wrthi'n cynnal adolygiad i gywain gwybodaeth am yr argyfwng yn Bilsdale ac ymateb partneriaid y diwydiant i'r argyfwng hwnnw. Ar wahân, mae Ofcom wedi comisiynu ymchwil defnyddwyr i brofiadau aelwydydd y mae'r tân yn Bilsdale wedi effeithio ar eu derbyniad.
- 1.8 Mae'r ddogfen adolygu hon yn nodi ein casgliadau am yr hyn a ddigwyddodd. Mae hefyd yn nodi ein hargymhellion o ran yr hyn y mae angen iddo ddigwydd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd sefyllfa debyg yn digwydd yn y dyfodol, er mwyn cyfyngu ar yr effaith bosib ar wylwyr a gwrandawyr.

Ein canfyddiadau – yn gryno

Mae rhwydweithiau trawsryddion darlledu'r DU wedi'u dylunio i fod yn gydnerth pan fydd diffygion, ac mae digwyddiadau sy'n achosi difrod difrifol ac yn tynnu gwasanaethau oddi ar yr awyr am gyfnodau hir yn anghyffredin.

Mae gan Arqiva a'i gwsmeriaid darlledu (y trwyddedeion amblecs ar gyfer radio a theledu digidol, a darlledwyr radio analog) gynlluniau sydd wedi'u profi, y gellir eu rhoi ar waith yn gyflym ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o fethiant seilwaith. Mae Arqiva yn cadw stoc gynhwysfawr o gyfarpar yn benodol i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd adfer yn sgil trychineb

Dinistriodd y tân yn Bilddale y mast a'r offer trawsrydd o fewn yr adeiladau cyfagos. Unwaith y daeth yn amlwg bod y difrod yn debygol o fod yn ddifrifol, aeth Arqiva ati'n gyflym i adeiladu trawsryddion dros dro i adfer y ddarpariaeth, gan weithio gyda'r darlledwyr i reoli'r digwyddiad a chynllunio'r defnydd o'r cyfarpar dros dro.

Gohiriwyd gweithredu rhai o'r trawsryddion dros dro, yn enwedig yr un a leolir ar safle Bilddale, oherwydd materion yn ymwneud â mynediad i'r safle, a materion cynllunio a gweithredu technegol - y cododd rhai ohonynt o ganlyniad i leoliad y safle o fewn Parc Cenedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Byddai meddu ar gynlluniau sy'n benodol i'r safle wedi helpu Arqiva i ragweld y problemau ac efallai arwain at osod y cyfarpar dros dro ar y safle'n gyflymach.

Darparodd rhai o wefannau'r Darlledwr, gan gynnwys tudalennau Cyngor ar Dderbyniad BBC, wybodaeth yn ymwneud â Bilddale. Y prif fecanwaith a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth i wylwyr yn y lle cyntaf oedd y trefniant safonol a ddefnyddiwyd gan y trwyddedeion amblecs teledu, gan ddefnyddio Canolfan Gyswllt a gwefan Freeview, a ddarparodd gydnabyddiaeth bod problem yn Bilddale ynghyd â chynghor eithaf cyffredinol yn unig. Pan bennwyd y byddai'r digwyddiad yn effeithio ar dderbyniad am gyfnod estynedig, roedd ansicrwydd ymhlith y partiön ynghylch beth ddylai fod yr ymagwedd at gyfathrebu a chefnogi gwylwyr. Arweiniodd hyn at oedi wrth ddarparu cymorth priodol wedi'i dargedu ar gyfer aelwydydd yr effeithiwyd ar eu derbyniad gan y tân.

O ystyried difrifoldeb y digwyddiad yn Bilddale, a'r effaith y mae wedi'i chael ar wylwyr a gwrandawyr, credwn ei bod yn gymesur i'r rhanddeiliaid perthnasol adolygu'n brydlon amgylchiadau'r tân yn Bilddale a'u hymateb iddo, a chymryd camau i ymdrin â gwendidau. Mae Ofcom yn bwriadu gweithio gyda'r rhanddeiliaid hynny a bydd yn ystyried a oes angen cymryd camau rheoleiddio pellach, ar ôl ystyried unrhyw fentrau newydd a roddwyd ar waith a'r cynnydd a wnaed wrth eu datblygu.

Argymhellion

- Dylai rhanddeiliaid y diwydiant darlledu daearol adolygu'r amgylchiadau a'r ymateb i dân Bilsdale ac ystyried yr hyn a weithiodd yn dda, a hefyd lle mae gwendidau a meysydd y mae angen eu gwella.
 - Dylai rhanddeiliaid sicrhau eu bod yn cynnwys ystyriaeth briodol o'r canlynol yn eu hadolygiadau:
 - Y cydnheredd a ddarperir gan saernïaeth eu seilwaith technegol;
 - Digonolrwydd y cynlluniau ar gyfer adfer gwasanaethau os bydd methiannau mawr, gan gynnwys yr angen am gynlluniau sy'n benodol i safleoedd; a
 - Statws cynlluniau cyfathrebu a chefnogaeth i sicrhau eu bod yn ddigonol ac yn gymesur ar gyfer sefyllfaoedd a all gael eu rhagweld.
- c) Mae materion gysylltiedig â chynllunio a mynediad cyfreithiol at dir a sut y gellid symleiddio neu hwyluso'r prosesau hynny o dan amgylchiadau brys yn haeddu ystyriaeth bellach gan Arqiva ynghyd â'r Asiantaethau ac Adrannau Llywodraeth perthnasol.

Dim ond crynodeb lefel uchel wedi'i symleiddio sydd yn adran trosolwg y ddogfen hon. Disgrifir y casgliadau dros dro yr ydym yn ymgynghori arnynt a'n sail resymegol drostynt yn y ddogfen lawn.